YSGOL BRYNREFAIL

YSGOLORIAETH I AARON

Y mae Aaron Gwyn yn nesu at ddiwedd ei yrfa ym mlwyddyn 11 yn Ysgol Brynrefail. Yn anffodus i ni y mae hefyd yn dod at ddiwedd ei yrfa gyda ni yn Ysgol Brynrefail oherwydd y mae Aaron wedi ennill ysgoloriaeth i Ysgol Breswyl Rydal ym Mae Colwyn.Bu Aaron yn chwarae rygbi ers yn grwtyn pump oed pan ddechreuodd gyda Clwb Rygbi Caernarfon. Ers cyrraedd Brynrefail bu yn aelod cyson o dimau'r Ysgol a hefyd wedi chwarae dros dimau Arfon/Môn dan 15 a thimau Caernarfon dan 16.

Mae Aaron , sy'n chwarae yn yr ail reng (y sgrym i'r anwybodus yn eich plith !), wedi datblygu yn chwaraewr rygbi dawnus tros ben ac yn chwarae i dîm Gogledd Cymru R.G.C.1404 ac eisioes wedi chwarae yn erbyn y Dreigiau, Gweilch, Gleision a'r Sgarlets.

Ond yn ddiweddar fe ddaeth a chlod mawr iddo'i hun a'i deulu trwy ei ddewis yn gapten ar dîm Gogledd Cymru dan 18 yn eu gornest yn erbyn Canada ac fe gafodd y fraint o'u harwain i fuddugoliaeth , Gogledd Cymru 10 Canada 8.

Cafodd ei ysgoloriaeth dan nawdd Undeb Rygbi Cymru ac yn ogystal â'i addysg bydd yn derbyn 16 awr o hyfforddi gan arbenigwyr yr undeb rygbi. Bwriad Aaron ar ôl gadael Ysgol yw chwarae rygbi yn broffesiynol.Er yn drist o'i golli o deulu Brynrefail yr ydym yn ymfalchïo yn ei lwyddiant ac yn dymuno'r gorau oll iddo mewn dyfodol a fydd, yn ein barn ni, yn ddisglair dros ben.